OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

***Ymholiadau'r Tribiwnlys***

**Ymholiadau gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**26.** Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg ar ôl cael y cais apêl neu'r cais hawlio—

(a) gofyn i bob parti—

(i) a yw'r parti'n bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawiad ai peidio;

(ii) a yw'r parti yn dymuno cael ei gynrychioli yn y gwrandawiad yn unol â rheoliad 53 ac os felly, enw'r cynrychiolydd;

(iii) a yw'r parti'n bwriadu galw tystion ac os felly, enwau'r tystion arfaethedig, eu galwedigaethau, ac a oes arbenigwr meddygol neu arbenigwr arall yn eu plith;

(iv) a oes ar y parti, neu dyst, angen cymorth oherwydd nam cyfathrebu, ac os felly, manylion y math o cymorth cyfathrebu sy'n ofynnol;

(v) a oes gan y parti, neu dyst y bwriedir ei alw, unrhyw anableddau a allai olygu y byddai'n ofynnol gwneud addasiadau rhesymol;

(vi) a yw'r parti yn dymuno i berson fod yn bresennol fel sylwedydd yn y gwrandawiad ac os felly, enw'r person hwnnw;

(vii) a yw'r parti'n dymuno i unrhyw berson fod yn bresennol yn y gwrandawiad i fynegi safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn, ac os felly, enw a chyfeiriad person o'r fath ac, os yw'n berthnasol, cysylltiad y person â'r plentyn;

(b) rhoi gwybod i bob parti—

(i) am effaith rheoliad 43(6) a darpariaeth rheoliad 46(2); a

(ii) os digwydd i ateb i unrhyw un o'r ymholiadau o dan is-baragraff (a) newid ar ôl i barti ymateb i'r ymholiadau hynny, bod rhaid i'r parti dan sylw roi gwybod ar unwaith i Ysgrifennydd y Tribiwnlys mewn ysgrifen.

**Methiant i ymateb i ymholiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys**

**27.**—(1) Caiff y Llywydd orchymyn—

(a) bod y cais apêl neu'r cais hawlio yn cael ei ddileu ar y sail bod methiant yr apelydd neu'r hawlydd i gydymffurfio ag ymholiadau, a wnaed gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 26, yn rhagfarnu neu'n oedi gwrandawiad teg o'r apêl neu'r hawliad;

(b) na chaiff yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol gymryd unrhyw gam pellach yn yr apêl neu'r hawliad na bod yn bresennol yn y gwrandawiad na chael ei gynrychioli yno ar y sail bod methiant yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol i gydymffurfio ag ymholiadau, a wnaed gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 26, yn rhagfarnu neu'n oedi gwrandawiad teg o'r apêl neu'r hawliad.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd roi hysbysiad i'r parti y bwriada'r Llywydd wneud gorchymyn yn ei erbyn, gan wahodd sylwadau ganddo, a rhaid i'r Llywydd ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti y caiff, o fewn cyfnod (o ddim llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai wneud sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i wneud sylwadau llafar;

(b) bydd sylwadau wedi eu gwneud—

(i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os gwneir hwy o fewn y cyfnod penodedig; a

(ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu gwneud wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(4) Os dilëir cais apêl neu gais hawlio o dan baragraff (1)(a), ystyrir bod yr achos y mae'r apêl neu'r hawliad yn ymwneud ag ef wedi ei derfynu.